# Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2002

Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau Llafar i Brif Weinidog Cymru**
Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**2.45pm**
**Croesawodd y Llywydd y Gwir Anrhydeddus Robin Cook, Llefarydd Ty'r Cyffredin, a oedd yn eistedd yn yr oriel gyhoeddus.**

**2.46pm**
**Atebodd Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, gwestiwn brys gan Nicholas Bourne ar gyd-drefnu mesurau i fynd i'r afael â'r argyfwng llifogydd sydd wedi digwydd yng Nghanolbarth Cymru.**

**3.16pm**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ofal Lliniarol**

**3.42pm**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Raglen Ddeddfwriaethol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru**

**4.06pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**4.09pm**
**Pwyntiau o Drefn**

**Rhodri Glyn Thomas** o dan Reol Sefydlog 6.12A ynghylch dogfennau sy’n ymwneud â’r ddadl ar Ddatblygu Cynaliadwy o dan Eitem 8.

**Gwenda Thomas** o dan Reol Sefydlog 16.1 ynghylch cwynion ynghylch Aelodau. Cadarnhaodd **y Llywydd** bod yn rhaid, o dan y Weithdrefn Gwyno, cyflwyno cwynion am Aelodau i’r Llywydd yn y lle cyntaf. Ef sy’n penderfynu, yng ngoleuni cyngor gan Richard Penn, y Cyngorydd Annibynnol ar Safonau, p’un a yw cwyn o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau.

**Glyn Davies** ynghylch cyfrinachedd Pwyllgor y Ty, yng ngoleuni datganiadau diweddar i’r wasg. Cadarnhaodd **y Llywydd** y byddai’n cyfeirio’r mater at y Pwyllgor Safonau.

**Richard Edwards** ynghylch cyfeiriadau at "Lywodraeth Llundain". Cytunodd **y Llywydd** fod y fath gyfeiriadau yn peri dryswch.

**4.20pm**
**Cynnig i gymeradwyo, o dan Rh.S.22.25:**
**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2002**
*NDM945* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2002; ac

2. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Ionawr 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Cymeradwywyd y cynnig**

**4.21pm**
**Cymerodd y Dirprwy Llywydd y Gadair**

**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig ar leihau maint dosbarthiadau a chodi safonau mewn ysgolion sy'n perfformio'n wael**

*NDM944* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 23) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y cynnig**

**4.46pm**
**Adolygu Rheol Sefydlog 4 - newidiadau ar gyfer Cofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau**

*NDM943* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol ag adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru a Rheol Sefydlog 34:

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Safonau ac adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2002; ac

2. yn cymeradwyo newid y rheolau sefydlog fel a ganlyn:

Dileu'r ATODIAD i Reol Sefydlog 4 yn ei gyfanrwydd a rhoi yn ei le:

**"Rheol Sefydlog 4 YR ATODIAD**

**Y buddiannau sydd i gael eu cofnodi yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau'r Cynulliad ac sydd i'w datgan cyn siarad mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad**

*[Sylwer: Dylai Aelodau, wrth restru'u buddiannau cofrestradwy, gymryd i ystyriaeth unrhyw benderfyniadau, Codau Ymarfer neu Nodiadau Cyfarwyddyd perthnasol y gall y Cynulliad fod wedi'u mabwysiadu ynglyn â'r mater hwn.]*

**Cyffredinol**

I. Caiff unrhyw weithgarwch y ceir tâl amdano ym meysydd cysylltiadau cyhoeddus, a chynghori ac ymgynghori ynglyn â swyddogaethau'r Cynulliad, ei gynnwys yn y rhan honno o'r gofrestr sy'n gysylltiedig â gwaith cyflogedig, swydd neu alwedigaeth. Mae'r cyfryw weithgarwch yn cynnwys unrhyw weithredu sy'n gysylltiedig ag unrhyw drafodion yn y Cynulliad, neu bwyllgor neu is-bwyllgor o'r Cynulliad, noddi cyfarfodydd cymdeithasol yn adeiladau'r Cynulliad, a chyflwyno sylwadau i Gabinet y Cynulliad neu i unrhyw un o'i Aelodau.

II. Mae mwyafrif y buddiannau a bennir yn y Categorïau isod yn cynnwys cyfeiriad at fuddiannau y meddir arnynt yn annibynnol gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod neu a roddir iddo ef neu iddi hi, a rhaid cofrestru'r rhain hefyd os yw'r buddiannau hynny yn hysbys i'r Aelod.

III. At ddibenion cofnodi a datgan y buddiannau sydd wedi'u pennu yn y categorïau:-

a) ystyr partner Aelod yw priod iddo ef neu iddi hi neu un o gwpl p'un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod; a

b) ystyr plentyn dibynnol yw unrhyw berson sydd, pan gofnodir y buddiant, yn iau nag un ar bymtheg mlwydd oed neu yn iau na phedair ar bymtheg mlwydd oed ac sy'n derbyn addysg llawn amser drwy fynychu sefydliad addysgol cydnabyddedig ac :-

(a) sy'n blentyn i'r Aelod; neu

(b) sy'n lys-blentyn i'r Aelod drwy briodas; neu

(c) sy'n blentyn a fabwysiadwyd yn gyfreithliol gan yr Aelod; neu

(ch) sy'n blentyn y mae'r Aelod yn bwriadu ei fabwysiadu yn gyfreithiol; neu

(d) sy'n blentyn y bu'r Aelod yn ei gefnogi yn ariannol am o leiaf y 6 mis calendr blaenorol.

**Buddiannau Cofrestradwy**

Dyma’r buddiannau cofrestradwy:

1. Swyddi cyfarwyddwyr a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, mewn cwmnïau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr nad ydynt yn cael eu talu’n unigol ond lle telir cyflog drwy gwmni arall yn yr un grwp.

2. Cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (heblaw aelodaeth o’r Cynulliad) y mae’r Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt.

3. Enwau cleientau pan fydd y buddiannau y cyfeirir atynt uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, sy’n deillio o’i aelodaeth o’r Cynulliad, neu sydd wedi’u cysylltu â hynny mewn unrhyw fodd.

4. Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol, y mae eu gwerth yn uwch na’r hyn a bennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, a geir gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, , gan gwmni, corff neu unigolyn mewn perthynas ag aelodaeth o’r Cynulliad neu’n deillio o hynny.

5. Unrhyw dâl neu fudd materol y mae’r Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, yn ei gael gan unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy’n tendro, am gontract gyda’r Cynulliad, neu sy'n meddu ar gontract.

6. Nawdd ariannol (i) fel ymgeisydd i’w ethol i’r Cynulliad, lle, hyd y gwyr yr Aelod, mae’r nawdd mewn unrhyw achos yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (ii) fel Aelod o’r Cynulliad gan unrhyw unigolyn neu gorff, gan ddatgan a yw unrhyw nawdd o’r fath yn cynnwys unrhyw dâl i’r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol.

7. Yn amodol ar unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, mewn perthynas ag aelodaeth o’r Cynulliad neu’n deillio o hynny pan na fydd cost unrhyw ymweliad o’r fath wedi’i dalu’n llwyr gan yr Aelod neu ag arian cyhoeddus.

8. Unrhyw dir ac eiddo i’r Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y’i pennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad neu y ceir incwm sylweddol drwyddo heblaw unrhyw gartref a ddefnyddir fel preswylfan personol gan yr Aelod neu bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod.

9. Enwau cwmnïau neu gyrff eraill lle mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben neu ar ei phen ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant buddiol, neu lle, hyd y gwyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod fuddiant buddiol mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth mewn enw’n fwy nag un y cant o’r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu’n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a bennir mewn unrhyw

benderfyniad gan y Cynulliad.

10. Aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu’n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu’n rhannol gan y Cynulliad.

11. Aelodaeth yr Aelod o’r Seiri Rhyddion."

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 6; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y cynnig gan y mwyafrif angenrheidiol o ddwy ran o dair.**

**5.07pm**
Cynigiodd y Trefnydd gynnig gweithrefniadol o dan Reol Sefydlog 6.10 i ohirio’r ddadl ddilynol.

Cynhaliwyd pleidlais:
**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Cynnig ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy**
*NDM946* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r camau a gymerir tuag at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru;

2. Yn galw ar y Gweinidog dros yr Amgylchedd i gyhoeddi adroddiad yn y Gwanwyn ar weithredu'r cynigion yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn ystod blynyddoedd ariannol 2000-01 a 2001-02, a diweddaru'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy yng ngolau'r hyn a wnaed hyd yma.

Gosodwyd copi o "Dysgu Byw'n Wahanol" - Cynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad Cenedlaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2000.

Gosodwyd copi o'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2001.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwyntiau 1 a 2 ac ychwanegu paragraff newydd:
"Yn nodi gyda siom y diffyg cynnydd o ran rhoi egwyddorion y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ar waith."

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 1, dileu "Yn croesawu’r" a gosod "Yn nodi’r" yn ei le.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig.
"Yn galw ar y Trefnydd i amserlennu dadl ar yr adroddiad a grybwyllir ym mharagraff 2 yn y Cyfarfod Llawn, cyn gynted ag y bo modd wedi iddo gael ei gyhoeddi."

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig.
"Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod Prif Weinidog Cymru'n cynrychioli Cymru yn Uwch Gynhadledd y Ddaear yn Johannesburgh."

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig.
"Yn datgan y dylai newid yn yr hinsawdd fod yn ystyriaeth bwysig yng Nghynllun y Cynulliad Cenedlaethol ac yn galw am ddynodi creu economi carbon isel fel un o amcanion allweddol polisi datblygu economaidd Cymru."

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.11pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05am ddydd Iau, 7 Chwefror 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a gyflwynwyd ar 31 Ionawr 2002**

Cyfrifon Adnoddau'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru - LD1237
Cyfrifon Menter Coedwigaeth yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a daeth i ben 31 Mawrth 2001 - LD1236